



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 1285 (Cy.163)

2012 No. 1285 (W.163)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH,
WALES**

Rheoliadau Hysbysebu a
Hyrwyddo Tybaco (Arddangos)
(Cymru) 2012

The Tobacco Advertising and
Promotion (Display) (Wales)
Regulations 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiadau rhag gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco a osodwyd gan adran 7A(1) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ("y Ddeddf").

These Regulations make provision for exemptions from the prohibition of tobacco displays imposed by section 7A(1) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002 ("the Act").

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i werthwyr tybaco arbenigol (rheoliad 1(3)).

These Regulations do not apply to specialist tobacconists (regulation 1(3)).

Mae rheoliad 1 yn darparu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 3 Rhagfyr 2012 ar gyfer siopau mawr, nad ydynt yn swmpwerthwyr tybaco, ac ar 6 Ebrill 2015 at bob diben arall.

Regulation 1 provides that these Regulations will come into force on 3 December 2012 for large shops, other than bulk tobacconists, and on 6 April 2015 for all other purposes.

Mae rheoliad 3 yn diffinio ystyr "lle" ("*place*") at ddibenion adran 7A o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco). Fe'i diffiniwyd i olygu mangreoedd yng Nghymru lle y mae cynhyrchion tybaco yn cael eu cynnig i'w gwerthu wrth gynnal busnes, ac eithrio mangreoedd sydd ond yn hygyrch i bobl sy'n ymhel â'r fasnach dybaco neu sy'n cael eu cyflogi ganddi, ac nad ydynt yn arddangos prisiau cynhyrchion tybaco ar y tu allan i'r mangreoedd.

Regulation 3 defines the meaning of "place" ("*lle*") for the purposes of section 7A of the Act (prohibition of tobacco displays). It is defined as meaning premises in Wales where tobacco products are offered for sale in the course of a business, other than premises which are accessible only by persons engaged in or employed by, the tobacco trade and which do not display the prices of tobacco products on the outside of the premises.

Mae rheoliad 4 yn gymwys pan geir arddangosiad o gynhyrchion tybaco i unigolyn yn dilyn cais penodol gan yr unigolyn i brynu cynnyrch tybaco, neu am wybodaeth am gynnyrch tybaco; "arddangosiad sy'n destun cais" yw hwn fel y diffinnir "*requested display*" yn adran 7B(8) o'r Ddeddf (arddangosiadau tybaco: eithriadau ac amddiffyniad). Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd drwy arddangos cynhyrchion tybaco i bersonau ac eithrio'r unigolyn a wnaeth gais am yr arddangosiad os yw'r gofynion yn rheoliad 4 wedi eu bodloni.

Regulation 4 applies when there is a display of tobacco products to an individual following a particular request by the individual to purchase a tobacco product, or for information about a tobacco product; this is a "requested display" ("*arddangosiad sy'n destun cais*") as defined in section 7B(8) of the Act (tobacco displays: exclusions and defence). No offence will be committed by a display of tobacco products to persons other than the individual who requested the display if the requirements in regulation 4 are met.

Mae rheoliad 5 yn caniatáu ar gyfer arddangosiadau o gynhyrchion tybaco mewn mangreoedd "swmpwerthwyr tybaco". Mae'r term "swmpwerthwyr tybaco" ("*bulk tobacconists*") yn cael ei ddiffinio (yn rheoliad 2) i olygu siopau nad ydynt yn gwerthu sigarêts neu dybaco rholio â llaw mewn unedau bach. Caniateir i gynhyrchion tybaco gael eu harddangos os ydynt mewn rhan o'r siop sy'n cynnwys cynhyrchion tybaco ac ategolion ysmegu yn unig a bod gofynion rheoliad 5 yn cael eu bodloni.

Mae rheoliad 6(1) yn caniatáu ar gyfer arddangos cynhyrchion tybaco mewn uned storio os yw'r arddangosiad yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 6(2). Mae'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6(2)(a) wedi eu nodi yn rheoliad 6(3). Mae rheoliad 6(2)(b) yn gosod terfyn o 1.5 metr sgwâr ar arwynebedd yr uned storio y caniateir iddo fod yn weladwy pan fo'r gweithgareddau yn rheoliad 6(3) yn cael eu cyflawni. Mae rheoliad 6(3)(g) yn caniatáu arddangosiad cysylltiedig at ddibenion gosod dangosiadau ar uned storio. Label neu farciwr arall o ryw fath yw "dangosiad" ("*indication*") sy'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn rheoliad 8(3). Mae rheoliad 6(4) yn darparu nad yw hi'n dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf os yw cynhyrchion tybaco yn cael eu harddangos yn ystod cyfnod ailstocio os yr unig bryd y mae'r cynhyrchion tybaco yn cael eu harddangos yw tra bônt yn cael eu rhoi yn yr uned storio ac nad yw'r arddangosiad yn parhau yn hwy na'r amser y mae ei angen i roi'r cynhyrchion yn yr uned storio.

Mae rheoliad 7 yn caniatáu ar gyfer arddangosiadau o gynhyrchion tybaco pan fo cais am arddangosiadau o'r fath yn cael ei wneud gan swyddogion a awdurdodwyd yn briodol o'r awdurdodau gorfodi, swyddogion yr heddlu neu swyddogion tollau sy'n gweithredu wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Mae rheoliad 8 yn galluogi rhoi dangosiad ar uned storio o gynhyrchion tybaco a gedwir yn yr uned os yw'r gofynion yn y rheoliad hwn yn cael eu bodloni.

Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Man Gwerthu) 2004, a oedd yn caniatáu i hysbysebion tybaco penodol gael eu cyhoeddi mewn lleoedd y mae cynhyrchion tybaco yn cael eu gwerthu, wedi eu dirymu o ran Cymru. Mae adran 2 o'r Ddeddf yn gwahardd hysbysebu tybaco.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ei hysbysu am ddrafft o'r Rheoliadau fel safon dechnegol, yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 204, 21.7.1998, t.37), sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol, fel y'i diwygiwyd.

Regulation 5 allows for displays of tobacco products in "bulk tobacconists". "Bulk tobacconists" ("*swmpwerthwyr tybaco*") are defined (in regulation 2) to mean shops that do not sell cigarettes or hand-rolling tobacco in small units. Tobacco products may be displayed if they are in an area of the shop containing only tobacco products and smoking accessories and the requirements of regulation 5 are met.

Regulation 6(1) allows for the display of tobacco products in a storage unit if the display complies with the requirements of regulation 6(2). The activities referred to in regulation 6(2)(a) are set out in regulation 6(3). Regulation 6(2)(b) sets a limit of 1.5 square metres on the area of the storage unit that may be visible when the activities in regulation 6(3) are being carried out. Regulation 6(3)(g) allows an incidental display for the purpose of affixing indications on a storage unit. An "indication" ("*dangosiad*") is a label or some other marker that complies with the requirements set out in regulation 8(3). Regulation 6(4) provides that it is not an offence under section 7A(1) of the Act if tobacco products are displayed during restocking if the tobacco products are being displayed only whilst they are being placed in the storage unit and the display lasts for no longer than is necessary to place the products in the storage unit.

Regulation 7 allows for displays of tobacco products where such displays are requested by duly authorised officers of enforcement authorities, police officers or customs officers acting in the course of duty.

Regulation 8 enables an indication on a storage unit of tobacco products held in the unit if the requirements in this regulation are met.

The Tobacco Advertising and Promotion (Point of Sale) Regulations 2004, which permitted certain tobacco advertisements to be published at places where tobacco products are sold, are revoked in relation to Wales. Section 2 of the Act prohibits tobacco advertising.

A draft of the Regulations has been notified to the European Commission as a technical standard, pursuant to Directive 98/34/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 204, 21.7.1998, p.37) laying down a procedure for the provision of information in the field of technical standards and regulations, as amended.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Cwrs Bywyd, yr Is-adran Gwella Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Life Course Branch, Health Improvement Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 1285 (Cy.163)

2012 No. 1285 (W.163)

IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU

PUBLIC HEALTH,
WALES

Rheoliadau Hysbysebu a
Hyrwyddo Tybaco (Arddangos)
(Cymru) 2012

The Tobacco Advertising and
Promotion (Display) (Wales)
Regulations 2012

Gwnaed 14 Mai 2012

Made 14 May 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 16 Mai 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 16 May 2012

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)

*Coming into force in accordance with
regulation 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 4(3), 7A(2), 7B(3) a 19(2) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002(1), a chan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 4(3), 7A(2), 7B(3) and 19(2) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002(1), and section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(2) make the following Regulations.

Enwi, cychwyn, cymhwyso, effaith a dehongli

Title, commencement, application, effect and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012 a deuant i rym—

1.—(1) The title of these Regulations is the Tobacco Advertising and Promotion (Display) (Wales) Regulations 2012 and they will come into force—

- (a) at ddibenion siopau mawr, nad ydynt yn swmpwerthwyr tybaco, ar 3 Rhagfyr 2012; a
- (b) at bob diben arall, ar 6 Ebrill 2015.

- (a) for the purpose of large shops, other than bulk tobacconists, on 3 December 2012; and
- (b) for all other purposes, on 6 April 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i werthwyr tybaco arbenigol(3).

(3) These Regulations do not apply to specialist tobacconists(3).

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

(4) For the purposes of this regulation—

ystyr "arwynebedd perthnasol y llawr" ("*relevant floor area*"), mewn perthynas â siop yw arwynebedd mewnol y llawr o gymaint o'r siop ag

"large shop" ("*siop fawr*") means a shop which has a relevant floor area exceeding 280 square metres; and

(1) 2002 p.36. Diwygiwyd adran 4(3) gan O.S. 2006/2369. Mewnosodwyd adrannau 7A a 7B gan Ddeddf Iechyd 2009 (p.21), adran 21. Gweinidogion Cymru yw'r "appropriate Minister" o ran Cymru o dan adran 21(1) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ("y Ddeddf"), a amnewidiwyd gan adran 24 o Ddeddf Iechyd 2009, a pharagraffau 2 a 12 o Atodlen 4 iddi.

(1) 2002 c.36. Section 4(3) was amended by S.I. 2006/2369. Sections 7A and 7B were inserted by the Health Act 2009 (c.21), section 21. The Welsh Ministers are the "appropriate Minister" in relation to Wales under section 21(1) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002 ("the Act"), which was substituted by section 24 of, and paragraphs 2 and 12 of Schedule 4 to, the Health Act 2009.

(2) 1993 p.38.

(2) 1993 c.38.

(3) *Gweler* adran 6(2) a (3) o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "specialist tobacconist".

(3) *See* section 6(2) and (3) of the Act for the definition of "specialist tobacconist".

sy'n cynnwys, neu sy'n rhan o adeilad ond gan eithrio unrhyw ran o'r siop nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethu cwsmeriaid mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau nac ar gyfer arddangos nwyddau; ac

ystyr "siop fawr" ("*large shop*") yw siop lle mae arwynebedd perthnasol y llawr y tu hwnt i 280 o fetrau sgwâr.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arwynebedd yr uned storio" ("*area of storage unit*") yw cyfanswm arwynebedd yr uned storio lle y mae'r cynhyrchion tybaco ac unrhyw gynnyrch eraill yn weladwy;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le ac unrhyw gerbyd, llestr, hofrenfad, stondin neu adeiledd symudol;

ystyr "pecyn" ("*package*") yw unrhyw flwch, garton neu gynhwysydd arall;

ystyr "pecyn gwreiddiol" ("*original package*") yw'r pecyn y cyflenwyd y sigarêts neu'r tybaco rholio â llaw ynddo gan y gweithgynhyrchwr neu'r mewnforiwr at ddibenion manwerthu;

ystyr "siop" ("*shop*") yw unrhyw fangre lle y cynhelir masnach neu fusnes sy'n cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, gwerthu nwyddau;

ystyr "swmpwerthwr tybaco" ("*bulk tobacconist*") yw siop sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco (p'un a yw'n gwerthu cynhyrchion eraill neu beidio) ac y mae ei gwerthiannau sigarêts neu dybaco rholio â llaw, a fesurir yn unol â pharagraff (2), yn cydymffurfio â'r amodau canlynol—

- (a) bod o leiaf 90% o'i gwerthiannau sigarêts yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 200 o sigarêts neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 100 o sigarêts neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol; a
- (b) bod o leiaf 90% o'i gwerthiannau tybaco rholio â llaw yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwyso 250 gram neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwyso 125 gram neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol;

ystyr "uned storio" ("*storage unit*") yw gantri, cabinet neu uned, hambwrdd, silff neu unrhyw gynnyrch arall lle y cedwir cynnyrch tybaco tra'n aros am ei werthu.

"relevant floor area" ("*arwynebedd perthnasol y llawr*"), in relation to a shop, means the internal floor area of so much of the shop as consists of, or is comprised in, a building but excluding any part of the shop which is used neither for the serving of customers in connection with the sale of goods nor for the display of goods.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002;

"area of storage unit" ("*arwynebedd yr uned storio*") means the total area of the storage unit in which tobacco products and any other products are visible;

"bulk tobacconist" ("*swmpwerthwr tybaco*") means a shop selling tobacco products (whether or not it also sells other products) whose sales of cigarettes or hand-rolling tobacco, measured in accordance with paragraph (2), comply with the following conditions—

- (a) at least 90% of its cigarette sales are in pre-packed quantities of 200 or more cigarettes in their original package, and the remainder in pre-packed quantities of 100 or more cigarettes in their original package; and
- (b) at least 90% of its hand-rolling tobacco sales are in pre-packed quantities with a weight of 250 grams or more in their original package, and the remainder in pre-packed quantities with a weight of 125 grams or more in their original package;

"original package" ("*pecyn gwreiddiol*") means the package in which the cigarettes or hand-rolling tobacco were supplied for the purpose of retail sale by the manufacturer or importer;

"package" ("*pecyn*") means any box, carton, or other container;

"premises" ("*mangre*") includes any place and any vehicle, vessel, hovercraft, stall or moveable structure;

"shop" ("*siop*") means any premises where there is carried on a trade or business consisting wholly or mainly of the sale of goods;

"storage unit" ("*uned storio*") means a gantry, cabinet or unit, tray, shelf or other product in which a tobacco product is held pending sale.

(2) Bydd y gwerthiannau y cyfeiriwyd atynt yn y diffiniad o "swmpwerthwr tybaco" yn cael eu mesur yn ôl y pris gwerthu—

- (a) yn ystod y cyfnod mwyaf diweddar o ddeuddeg mis y mae cyfrifon ar gael ar ei gyfer; neu
- (b) yn ystod y cyfnod ers sefydlu'r siop, os nad yw wedi ei sefydlu'n ddigon hir i'r cyfrifon ar gyfer deuddeg mis fod ar gael.

Ystyr "lle"

3. At ddibenion adran 7A o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco), ystyr "lle" ("place") yw mangre yng Nghymru lle y mae cynhyrchion tybaco yn cael eu cynnig i'w gwerthu wrth gynnal busnes, ac eithrio mangre—

- (a) sydd ond yn hygyrch i bersonau sy'n ymhel â busnes sy'n rhan o'r fasnach dybaco neu sy'n cael eu cyflogi gan fusnes o'r fath; a
- (b) lle nad yw prisiau'r cynhyrchion tybaco yn weladwy o'r tu allan i'r fangre.

Arddangos o ganlyniad i arddangosiad sy'n destun cais

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arddangosiad sy'n destun cais⁽¹⁾ yn cael ei wneud i unigolyn ("A") sy'n 18 oed neu drosodd.

(2) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco mewn uned storio, i unigolion ac eithrio A—

- (a) os yw'r arddangosiad—
 - (i) o ganlyniad i'r arddangosiad sy'n destun cais yn unig, a
 - (ii) yn parhau am gyfnod nad yw'n hwy na'r amser y mae ei angen i dynnu'r cynnyrch sy'n destun cais o'r uned storio; a
- (b) os nad yw arwynebedd yr uned storio a arddangosir yn fwy nag 1.5 metr sgwâr.

(3) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco ac eithrio mewn uned storio, i unigolion ac eithrio A, os yw'r arddangosiad—

- (a) o ganlyniad i'r arddangosiad sy'n destun cais yn unig, a
- (b) yn parhau am gyfnod nad yw'n hwy na'r arddangosiad sy'n destun cais.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y cynnyrch sy'n destun cais" ("*the requested product*") yw'r cynnyrch y gofynnodd A i'w brynu neu i gael gwybodaeth amdano.

(2) The sales referred to in the definition of "bulk tobacconist" are to be measured by sale price—

- (a) during the most recent period of twelve months for which accounts are available; or
- (b) during the period for which the shop has been established, if it has not been established long enough for twelve months' accounts to be available.

Meaning of place

3. For the purposes of section 7A of the Act (prohibition of tobacco displays), "place" ("*lle*") means a premises in Wales where tobacco products are offered for sale in the course of a business, other than premises—

- (a) which are accessible only to persons who are engaged in, or employed by, a business which is part of the tobacco trade; and
- (b) from which the prices of tobacco products are not visible from the outside of the premises.

Display as a consequence of a requested display

4.—(1) This regulation applies where a requested display⁽¹⁾ is made to an individual ("A") aged 18 or over.

(2) No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products in a storage unit, to individuals other than A, if—

- (a) the display—
 - (i) is solely as a consequence of the requested display, and
 - (ii) lasts for no longer than is necessary to remove the requested product from the storage unit; and
- (b) the area of storage unit displayed does not exceed 1.5 square metres.

(3) No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products other than in a storage unit, to individuals other than A, if the display—

- (a) is solely as a consequence of the requested display; and
- (b) lasts for no longer than the requested display.

(4) In this regulation, "the requested product" ("*y cynnyrch sy'n destun cais*") means the product which A asked to purchase or for information about.

⁽¹⁾ *Gweler* adran 7(B)8 o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "requested display".

⁽¹⁾ *See* section 7(B)(8) of the Act for the definition of a "requested display".

Arddangos mewn mangreoedd swmpwerthwyr tybaco

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i arddangosiadau mewn mangreoedd swmpwerthwyr tybaco

(2) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco—

- (a) os yw'r arddangosiad—
 - (i) mewn rhan o'r siop ("y man tybaco") ("*the tobacco area*") sy'n cynnwys cynhyrchion tybaco ac ategolion ysmegu yn unig; a
 - (ii) yn un nad yw'n weladwy o'r tu allan i'r man tybaco;
- (b) os yw hysbysiad dwyieithog sy'n arddangos y datganiad canlynol wedi ei roi ar ddangos wrth y fynedfa i'r man tybaco—

"Mae gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un sy'n iau na 18 oed yn erbyn y gyfraith / It is illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18", ac
- (c) os yw'r siop wedi ei dylunio fel nad oes angen i gwsmeriaid sy'n dymuno prynu cynhyrchion nad ydynt yn gynhyrchion tybaco ac ategolion ysmegu fynd drwy'r man tybaco na chael eu hannog i fynd drwy'r fan honno.

(3) Rhaid i ddimensiynau'r hysbysiad sydd i'w rhoi ar ddangos yn unol â pharagraff (2)(b) beidio â bod yn llai na 594 o filimetrau wrth 420 o filimetrau a rhaid i faint y datganiad sydd i'w arddangos ar yr hysbysiad olygu na fydd unrhyw nod yn llai na 36 o filimetrau ei uchder.

Arddangosiadau Cysylltiedig

6.—(1) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco mewn uned storio os yw'r arddangosiad hwnnw yn cydymffurfio â gofynion paragraff (2).

- (2) Gofynion y paragraff hwn yw—
 - (a) bod yr arddangosiad—
 - (i) yn digwydd tra bo gweithgaredd a restrir ym mharagraff (3) yn cael ei gyflawni o ddifrif yn nhrefn arferol y busnes mewn perthynas â chynhyrchion tybaco;
 - (ii) o ganlyniad i gyflawni'r gweithgaredd hwnnw'n unig; a
 - (iii) yn parhau am gyfnod nad yw'n hwy na'r amser y mae ei angen er mwyn caniatáu i'r gweithgaredd hwnnw gael ei gyflawni; a
 - (b) nad yw arwynebedd yr uned storio a arddangosir yn fwy nag 1.5 metr sgwâr.

Display in bulk tobacconists

5.—(1) This regulation applies to displays in a bulk tobacconist.

(2) No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products if—

- (a) the display is—
 - (i) in a part of the shop ("the tobacco area") ("*y man tybaco*") containing tobacco products and smoking accessories only; and
 - (ii) not visible from outside of the tobacco area;
- (b) a bilingual notice displaying the following statement is exhibited at the entrance to the tobacco area—

"Mae gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un sy'n iau na 18 oed yn erbyn y gyfraith / It is illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18", and
- (c) the shop is designed so that customers who wish to buy products other than tobacco products and smoking accessories are not required or encouraged to pass through the tobacco area.

(3) The dimensions of the notice to be exhibited in accordance with paragraph (2)(b) must be not less than 594 millimetres by 420 millimetres and the size of the statement to be displayed on the notice must be such that no character is less than 36 millimetres high.

Incidental Displays

6.—(1) No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products in a storage unit if that display complies with the requirements of paragraph (2).

- (2) The requirements of this paragraph are that—
 - (a) the display—
 - (i) occurs in the course of an activity listed in paragraph (3) being actively carried out in the ordinary course of business in relation to tobacco products;
 - (ii) is solely as a consequence of that activity being carried out; and
 - (iii) lasts for no longer than is necessary in order to allow that activity to be carried out; and
 - (b) the area of the storage unit displayed does not exceed 1.5 square metres.

(3) Y gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(a)(i) yw—

- (a) asesu lefelau'r stoc at ddibenion rheoli stoc;
- (b) ailstocio;
- (c) hyfforddi staff;
- (d) glanhau'r uned storio;
- (e) cynnal a chadw'r uned storio;
- (f) ailwampio'r uned storio;
- (g) gosod dangosiadau ar yr uned storio sy'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn rheoliad 8(3).

(4) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco yn ystod ailstocio—

- (a) os yw'r cynhyrchion tybaco yn cael eu harddangos wrth iddynt gael eu rhoi yn yr uned storio yn unig; a
- (b) os nad yw'r arddangosiad yn parhau'n hwy na'r amser y mae ei angen er mwyn rhoi'r cynhyrchion yn yr uned storio.

Arddangos i swyddogion a awdurdodwyd yn briodol o'r awdurdod gorfodi etc

7. Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco os gwneir cais am yr arddangosiad hwnnw gan—

- (a) swyddog a awdurdodwyd yn briodol o'r awdurdod gorfodi;
- (b) cwnstabl; neu
- (c) swyddog Cyllid a Thollau,

sy'n gweithredu wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

Unedau storio

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r dangosiadau ar unedau storio o'r cynhyrchion tybaco a gedwir yn yr uned storio.

(2) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 2 o'r Ddeddf (gwaharddiad ar hysbysebu tybaco) os yw'r dangosiad yn cydymffurfio â gofynion paragraff (3).

(3) Y gofynion yw bod y dangosiad—

- (a) wedi ei gyfyngu i'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â chynhyrchion tybaco—
 - (i) enw brand y cynnyrch,
 - (ii) pan fônt wedi eu rhagbecynnu, nifer yr unedau yn y pecynnau neu, pan fônt yn cael eu gwerthu yn ôl pwysau, pwysau net y cynnyrch,

(3) The activities referred to in paragraph (2)(a)(i) are—

- (a) assessing stock levels for the purposes of stock control;
- (b) restocking;
- (c) staff training;
- (d) cleaning of the storage unit;
- (e) maintenance of the storage unit;
- (f) refurbishment of the storage unit;
- (g) affixing indications on the storage unit that comply with the requirements set out in regulation 8(3).

(4) No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products during restocking if—

- (a) the tobacco products are displayed in the course of being placed in the storage unit only; and
- (b) the display lasts for no longer than is necessary to place products in the storage unit.

Display to duly authorised officers of an enforcement authority etc

7. No offence is committed under section 7A(1) of the Act (prohibition of tobacco displays) by a display of tobacco products if that display is requested by—

- (a) a duly authorised officer of an enforcement authority;
- (b) a constable; or
- (c) an officer of Revenue and Customs,

who is acting in the course of their duty.

Storage units

8.—(1) This regulation applies to indications on storage units of the tobacco products held in the storage unit.

(2) No offence is committed under section 2 of the Act (prohibition of tobacco advertising) if the indication complies with the requirements of paragraph (3).

(3) The requirements are that the indication—

- (a) is limited to the following information in relation to tobacco products—
 - (i) the brand name of the product,
 - (ii) where pre-packed, the number of units in the packages or, where sold by weight, the net weight of the product,

- (iii) o ran sigârs yn unig, gwlad y tarddiad a'r dimensiynau,
 - (iv) o ran tybaco pib yn unig, y toriad a'r math o dybaco a ddefnyddir, a
 - (v) pris y cynnyrch;
- (b) wedi ei brintio—
- (i) mewn teip Helvetica du plaen ar gefndir gwyn,
 - (ii) mewn maint ffont sy'n gyson drwy'r testun cyfan gyda nodau nad ydynt yn uwch na 4 milimetr, a
 - (iii) mewn teip â llythrennau bach, ac eithrio bod llythyren gyntaf gair yn cael bod mewn teip â phriflythyren;
- (c) heb fod yn fwy na 9 centimetr sgwâr ei faint;
 - (d) wedi ei gyfyngu o ran nifer i un dangosiad ar gyfer pob lleoliad ar wahân mewn uned storio lle y cedwir cynnyrch tybaco penodol; ac
 - (e) yn un nad yw'n cynnwys unrhyw nodwedd arall.

(4) Ym mharagraff (3)(e)—

ystyr "nodwedd arall" ("*other feature*") yw logo, nod masnach, symbol, arwyddair, teip, lliw neu batrwm lliw, llun, celfwaith, delweddau, ymddangosiad, neges neu unrhyw ddangosiad arall sy'n ffurfio'r cyfan neu ran o hunaniaeth adnabyddadwy cynnyrch, ond nad yw'n cynnwys cod bar neu rif stoc.

Dirymu

9. Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Man Gwerthu) 2004(1) wedi eu dirymu o ran Cymru.

- (iii) in relation only to cigars, the country of origin and dimensions,
 - (iv) in relation only to pipe tobaccos, the cut and type of the tobacco used, and
 - (v) the price of the product;
- (b) is printed—
- (i) in black Helvetica plain type on a white background,
 - (ii) in a font size consistent throughout the text with characters which are no higher than 4 millimetres, and
 - (iii) in lower case type, except that the first letter of a word may be in upper case type;
- (c) does not exceed 9 square centimetres in size;
 - (d) is limited in number to one indication for each separate location in a storage unit where a particular tobacco product is held; and
 - (e) does not contain any other feature.

(4) In paragraph (3)(e)—

"other feature" ("*nodwedd arall*") means a logo, trademark, symbol, motto, type-face, colour or pattern of colour, picture, artwork, imagery, appearance, message or other indication that constitutes all or part of the recognisable identity of a product, but does not include a bar code or stock number.

Revocations

9. The Tobacco Advertising and Promotion (Point of Sale) Regulations 2004(1) are revoked in relation to Wales.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

The Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

14 Mai 2012

14 May 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1285 (Cy.163)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Hysbysebu a
Hyrwyddo Tybaco (Arddangos)
(Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1285 (W.163)

**PUBLIC HEALTH,
WALES**

The Tobacco Advertising and
Promotion (Display) (Wales)
Regulations 2012